**HYSBYSIAD YNGHYLCH LLUNIO GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL**
**ADRAN 53 DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981**
**MAP A DATGANIAD DIFFINIOLCYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**YCHWANEGU LLWYBR O LECYN GER GAMEKEEPER'S LODGE, PEN-Y-FAI, I LWYBR 5 NEWCASTLE HIGHER**
**GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL RHIF 1 2026**

Bydd y Gorchymyn uchod a luniwyd ar 11/02/2026, os caiff ei gadarnhau fel y'i gwnaed, yn addasu'r Map a'r Datganiad Diffiniol ar gyfer yr ardal trwy ychwanegu atynt. Mae'r llwybr troed yn cychwyn ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid SS 89128176) wrth y Giât Mochyn a leolir 38 metr i'r de-orllewin o gornel dde-ddwyreiniol yr eiddo a elwir yn Gamekeepers Cottage ac mae'n parhau i gyfeiriad y gorllewinol gogledd-orllewin am tua 15 metr i Bwynt B (Cyfeirnod Grid SS 89118176) ble mae'n troi ac yn rhedeg i gyfeiriad y gogledd gerllaw Gamekeeper's Lodge am tua 73 metr i Bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 89118184). Yna, mae'r llwybr yn croesi'r hen drac mynediad i Court Colman i gyfeiriad y gogledd gogledd-orllewin ac yna i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am tua 9 metr hyd at y giât mochyn ym Mhwynt D (Cyfeirnod Grid SS 89118150) ac yn mae'n parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am 161 metr arall tua'r giât ym Mhwynt E (Cyfeirnod Grid SS 89188199). Daw i ben wrth ei gyffordd â Llwybr Troed 5 Newcastle Higher. Ceir gatiau mochyn yng Nghyfeirnodau Grid SS 89128176 ac SS 89118150 a giât i gae yng Nghyfeirnod Grid SS 89188199.

Mae copi o'r gorchymyn a map y gorchymyn wedi'u gosod a gellir eu gweld yn rhad ac am ddim yn y brif dderbynfa yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y cyfeiriad isod o 8:30am tan 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, ac o 8:30am tan 4:30pm ar ddydd Gwener. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map yn rhad ac am ddim. Fel arall, mae copi o'r gorchymyn a'r map hefyd ar gael drwy gysylltu â rightsofway@bridgend.gov.uk/ffôn: 01656 642545, neu gellir ei archwilio ar-lein ar: [https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/](https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/). Rhaid anfon unrhyw sylw neu wrthwynebiad sy'n ymwneud â'r gorchymyn yn ysgrifenedig at K. Watson, Prif Swyddog , Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, i'r cyfeiriad isod, heb fod yn hwyrach na **10/04/2026**, a gofynnir i ymgeiswyr ddatgan ar ba sail y'i gwneir.

Os na chynigir unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau mewn da bryd ynghylch y gorchymyn (neu unrhyw ran ohono), neu os caiff unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a gynigir felly eu tynnu'n ôl, yn hytrach na chyflwyno'r gorchymyn i Weinidogion Cymru (neu ran ohono os yw'r awdurdod drwy hysbysiad i Weinidogion Cymru wedi dewis felly yn unol â pharagraff 5 Atodlen 15 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981), gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei hungadarnhau'r gorchymyn (neu'r rhan honno o'r gorchymyn). Os cyflwynir y gorchymyn i Weinidogion Cymru (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), bydd unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn cael eu hanfon gyda'r gorchymyn. Os cewch unrhyw anhawster ymateb yn ysgrifenedig neu os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, er enghraifft, print bras, sain, Braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio rhif ffôn y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid: 01656 643643. Sylwch y gall y Cyngor ystyried yr holl sylwadau a dderbynnir yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw (ynghyd ag enw a chyfeiriad y sawl sy'n ei wneud) fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio. Mae'r Cyngor yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg; bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

DYDDIEDIG: 19/02/2026

K Watson, Prif Swyddog , Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio , AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-Y-Bont Ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB

HIG001-1099/ A763/1/275